

Crynodeb o Amcanion Cynllun Adnoddau Coedwig Coetiroedd Llanandras

Leoliad a gosodiadau


Saif Coetiroedd Llanandras ar 443 hectar dros saith bloc o goetir arwahanol yn nalgylch afon Llugwy ar y ffin rhwng Cymru a Lloegr:

- Coed Nash, 215 hectar
- Coedwig y Gogledd, 30 hectar
- Coedwig Benbow, 24.9 hectar
- Burfa Bank, 50.7 hectar
- Coedwig Navages, 58.2 hectar
- Coedwig Worsell, 29.4 hectar
- Coedwig Bradnor, 35 hectar

Mae'r cynllun adnoddau coedwig yn cynrychioli llai nag 1% o Ystad Goetir Llywodraeth Cymru, gyda gwaith cynaeafu/cludo coed yn bennaf, a lle i deneuo cnydau i gynhyrchu cynhyrchion boncyff â gwerth uchel. Mae'r coetiroedd sy'n gyfagos i'r goedwig yn rhai cymysg, clôs o gymeriad tebyg, ar raddfa ganolog. Sefydlwyd llawer o'r goedwig ar briddoedd gwlypach ar dir uwch mewn ardaloedd lle mae'n parhau i fod yn bosibl tyfu amrediad eang o rywogaethau coed, a hynny er gwaethaf cystadleuaeth frwd gan chwyn a risg gymedrol o wyntyllu.

Mae'r cynllun adnoddau coedwig hwn yn anelu at amrywiaethu rhywogaethau coed lle bo modd, yn enwedig drwy deneuo â theneuon hadu er mwyn creu amodau golau sy'n hybu aildyfiant naturiol o amrywiaeth o rywogaethau coed. Mae'r dirwedd yn dir fferm caeedig yn bennaf, fel cefndir i dwristiaeth a menter ar gyrion trefi. Mae *Phytophthora ramorum* wedi osgoi'r cnydau llarwydd hyd yn hyn, ond mae'r gwaith o lwyrwgwmpo coed llarwydd er mwyn hybu amrywiaeth o rywogaethau wedibod yn yr arfaeth ers blyneddau lawer. Mae angen ymyriadau teneuo blyneddol ar bob un o'r saith coetir, gyda gwaith llwyrwgwmpo cyhoeddedig sydd wedi'i amseru'n.

Ceir cynhyrchiant uchel o bren ar raddfa fach i ganolog yn y coetiroedd yn y cynllun adnoddau coedwig hwn, gan ychwanegu at warchod ansawddw'r, y dirwedd a gweithgareddau hamdden yn yr awyr agored.



1. Hybu **cydnerthedd hirdymor** mewn ecosystemau coetir yn unol â chyfarwyddyd y canlynol:
 - [Cyfoeth Naturiol Cymru: Diben a Rôl Ystad Goetir Llywodraeth Cymru](#) – Blaenoriaeth allweddol 3
 - [Datganiad Ardal Canolbarth Cymru](#) – Lliniaru'r newid yn yr hinsawdd a gwella bioamrywiaeth
 - [Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol Cymru 2020](#) – Nod 2 rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy

Caiff yr amcan hwn ei gyflawni drwy ysgrifennu cynllun adnoddau coedwig sy'n cydymffurfio â Safon Coedwigaeth y DU a Safon Sicrwydd Coetiroedd y DU. Cyflwynir y gweithrediadau coedwig a rhaglenni gwaith dilynol yn ddiogel heb achosi niwed i'r amgylchedd. **Rhaid i adolygiad canol tymor y cynllun adnoddau coedwig cymeradwy werthuso a fu'r dull cyflenwi yn ddiogel, yn lân ac yn effeithlon, ac a yw'r map cyfleoedd wedi hybu gwaith ychwanegol yn y goedwig.**

2. Cynnal a **gwella cynefinoedd â blaenoriaeth a chefnogi rhywogaethau gwarchodedig**, gan ganolbwyntio ar goetiroedd lled-naturiol hynafol, Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig, a phathewod. Bydd cyfleoedd i ehangu cynefinoedd naturiol a chynefinoedd ar gyfer rhywogaethau gwarchodedig yn cael eu mapio ar gyfer cynllunio adnoddau yn y dyfodol. Bydd y Systemau Rheoli Coedwigoedd a'r mapiau Math o Goetir Dangosol a weithredir yn gyrru rhaglenni ar gyfer teneuo ac adfer corsydd mewn safleoedd lle gellir cyflawni'r effaith fwyaf cadarnhaol ar fioamrywiaeth. **Monitro cyfansoddiad cynefinoedd a rhywogaethau o is-adran y gronfa ddata am bum mlynedd, cwblhau cofnodion teneuo a llwyrwgwmpo gyda chymariaethau â data rhagolwg cynhyrchu. Cofnodion o waith gwella cynefinoedd ar goetir lled-naturiol hynafol gyda gwaith monitro dilynol ar y safle.**
3. Cynnal **cyflenwad cynaliadwy o bren** o oddeutu 2,632m³ o bren y flwyddyn am gyfnod cymeradwyo'r cynllun. Bydd y map Systemau Rheoli Coedwigoedd a weithredir yn gyrru rhaglenni ar gyfer seilwaith coedwigoedd, teneuo am y tro cyntaf, teneuo er bioamrywiaeth, newid tirwedd, ac amrywiaeth rhywogaethau a strwythur coetiroedd, ynghyd â chysylltedd bioamrywiaeth. **Monitro cyfansoddiad cynefinoedd a rhywogaethau o is-adran y gronfa ddata am bum mlynedd, cwblhau cofnodion teneuo a llwyrwgwmpo gyda chymariaethau â data rhagolwg cynhyrchu.**
4. Esblygu strwythur y goedwig i glustogi rhag **materion diogelwch, llygredd ac iechyd coed** posibl fel coed peryglus, difrod gan geirw a chlustogfeydd glannau afon. Bydd y map Math o Goetir Dangosol yn hybu amrywiaeth rhywogaethau pan fydd ailstocio'n digwydd, a bydd y map Systemau Rheoli Coedwigoedd a weithredir yn gyrru rhaglenni ar gyfer gwella amodau golau mewn clustogfeydd glannau afon a chael gwared ar broblemau fel coed llarwydd sydd wedi'u heintio â Phytophthora ramorum a choed peryglus ger cyfleusterau hamdden. **Monitro cyfansoddiad cynefinoedd a rhywogaethau o is-adran y gronfa ddata am bum mlynedd.**
5. Rheoli **llystyfiant a mannau agored** i hybu amrywiaeth strwythurol mewn rhodfeydd ac ar ochrau ffyrdd, a rheoli rhywogaethau goresgynnol a gor-bori er mwyn ffafrio adfywiad coed yn y lleoliadau cywir. Bydd y map Systemau Rheoli Coedwigoedd a weithredir, rhodfeydd, ffyrdd a mannau agored parhaol yn gyrru rhaglenni ar gyfer rheoli bywyd gwyllt a llystyfiant a fydd, lle bo hynny'n bosibl, yn manteisio ar gyfleoedd masnachol, e.e. cynaeafu tocion ar ochr y ffordd. **Monitro cyfansoddiadau cynefinoedd a rhywogaethau o is-adran y gronfa ddata am bum mlynedd, a chofnodion o weithrediadau rheoli llystyfiant wedi'u cwblhau.**
6. Cynnal a gwella **cyfleusterau hamdden, nodweddion treftadaeth ddiwylliannol a gwerth tirwedd** y goedwig drwy weithredu'r map Systemau Rheoli Coedwigoedd sydd wedi'i brofi drwy dull delweddu 3D a'i asesu gan randdeiliaid mewnol ac allanol. **Monitro gwaith llwyrwgwmpo ac ailstocio yn is-adran y gronfa ddata am bum mlynedd yn erbyn y map Systemau Rheoli Coedwigoedd. Myfyrio ar weithrediadau i wella neu gynnal nodweddion hamdden/treftadaeth ac ar ddadansoddiad ac argymhellion o astudiaethau i wella cynnig Cyfoeth Naturiol Cymru o ran hamdden cyhoeddus, tirwedd a threftadaeth ddiwylliannol.**

Crynodeb o'r prif newidiadau a fydd yn digwydd yn y goedwig:

- Drwy gydol cyfnod y cynllun sydd ar y gweill, bydd Coetiroedd Llanandras yn parhau i fod yn goetir cynhyrchiol pwysig, gan ddarparu cyflenwad cynaliadwy o bren i gefnogi cyflogaeth ac economi Cymru.
- Bydd rhywogaethau ac amrywiaeth strwythurol yn cael eu gwella'n sylweddol, gan ddarparu mwy o wytnwch i blâu, clefydau a newidiadau hinsoddol.
- Bydd ardaloedd o 'Blanhigfeydd ar Safleoedd Coetir Hynafol' yn cael eu trosi'n ôl yn araf ac yn bwylllog yn goetir llydanddail brodorol, gyda chysylltedd rhwng y nodweddion gweddilliol hyn yn cael ei gynnal a'i wella drwy reoli cnydau cyfagos.
- Bydd ehangu coridorau glannau afon o goed llydanddail brodorol a choetir olynol yn gwella cysylltedd cynefinoedd ymhellach ac yn darparu dull clustogi gwell yn erbyn safleoedd dynodedig cyfagos.
- Bydd dull 'Systemau Coedamaeth Bach eu Heffaith' graddol yn cael ei ffafrio lle bynnag y bydd hynny'n bosibl o ystyried cyfyngiadau ffisegol o ran mynediad at gnydau presennol, pa mor agored yr ydynt, a'r hanes o'u rheoli.
- Bydd lledaeniad cyflym *Phytophthora ramorum* yn gofyn am symud yr holl gnydau llarwydd o'r dyffryn yn gyflym o fewn y deng mlynedd nesaf.
- Bydd cynnal lleoliad tirwedd priodol o amgylch y gwahanol Henebion Cofrestredig sydd i'w gweld yn y cwm, nodi a diogelu nodweddion cadwraeth eraill a darparu cyfleoedd mynediad iach ar gyfer y gymuned yn parhau i fod yn amcanion pwysig.